Darn darllen: Golwg:
Cefnu ar y syniad o 'symud gwyliau'r haf' medd undeb

Mae undeb addysg yn honni fod y gweinidog addysg wedi cefnu ar argymhelliad i symud gwyliau'r haf fis yn gynharach yn y flwyddyn.

Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru mai'r syniad oedd y mwyaf "radical" o dri syniad oedd dan ystyriaeth gan y gweinidog, Kirsty Williams.

Ond byddai hynny wedi golygu tymor yr hydref oedd yn para 20 wythnos, gydag ond wythnos o saib ynddo.

Dywedodd ffynhonnell ar ran y llywodraeth ei fod yn "opsiwn synhwyrol" ond eu bod yn "parchu" y ffaith nad oedd undebau o blaid.

Mae Ms Williams wedi dweud ei bod yn gweithio'n agos gydag undebau, awdurdodau lleol ac arbenigwyr i benderfynu ar y camau nesaf, ac y bydd yn cyhoeddi mwy o fanylion am gynlluniau i ailagor ysgolion wythnos nesaf.

Ond mae'r gwrthbleidiau wedi dweud y dylai'r opsiwn o symud y gwyliau haf barhau i gael ei ystyried.

'Pryderon sylweddol'

Dywedodd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru eu bod wedi lleisio "pryderon sylweddol" am y dewis posib o symud gwyliau'r haf fis yn gynt.

Mae BBC Cymru yn deall fod y rhesymau dros ystyried symud y gwyliau yn cynnwys:

- **Tywydd da er mwyn galluogi ysgolion i wneud y mwyaf o ardaloedd awyr agored;**
- **Y gred nad yw'r feirws yn lledaenu cymaint mewn golau dydd a thu allan;**
- **Addysg ym mis Awst yn golygu bod disgyblion wedi cael mwy o oriau cyswllt cyn ail don posib yn yr hydref neu'r gaeaf.**

Ond yn dilyn trafodaethau fe ddywedodd y gweinidog wrth yr undeb na fyddai'r cynllun - lle byddai disgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol ym mis Awst - yn cael ei weithredu.

Mewn datganiad, dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru "nad yw'r sefyllfa yng Nghymru wedi newid" ac fe fyddai na ddiweddariad yr wythnos nesaf.

Mae ysgolion yng Nghymru wedi bod ar gau ers 20 Mawrth. Ers hynny mae'r gweinidog addysg wedi bod mewn trafodaethau gyda'r undebau, cynghorau, athrawon a gwyddonwyr i drafod pa bryd y bydd disgyblion yn dychwelyd i'w dosbarthiadau.

Mewn datganiad ar dudalen Facebook Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, dywedodd yr undeb fod dwy opsiwn arall dan ystyriaeth, heblaw am yr un sydd bellach wedi ei diystyru.

Un cynllun dan ystyriaeth fyddai "ail-agor ysgolion ar 22 neu 29 Mehefin", er nad oedd penderfyniad wedi ei wneud eto ynglŷn â pha flynyddoedd fyddai'n dychwelyd, a sut y byddai dychwelyd cam wrth gam yn gweithio.

Y dewis arall fyddai aros tan fis Medi cyn ail-agor.

Dywedodd Suzy Davies AS o'r Ceidwadwyr Cymreig ei bod hi'n "siomedig" fod y drws wedi ei gau ar yr opsiwn o symud y gwyliau.

"Y ddau brif beth i'w ystyried fan hyn yw bod athrawon ddim yn colli eiliad o'r gwyliau haf maen nhw i gyd angen, a bod disgyblion ddim yn treulio eiliad yn hirach i ffwrdd o'r ysgol nag sydd angen," meddai.

Dywedodd llefarydd Plaid Cymru ar addysg, Sian Gwenllian y dylid bod wedi "ystyried yr opsiwn" o symud y gwyliau ymhellach.

"Byddai ysgolion wedi gallu ailagor yn raddol am mewn camau ym mis Awst petai'n saff gwneud hynny," meddai.

Dywedodd arweinydd Plaid Brexit yn y Senedd, Mark Reckless, fod y llywodraeth wedi plygu i bwysau'r undebau wrth ddiystyru'r opsiwn.

Ymestyn y tymor

Roedd na awgrym y byddai tymor yr haf yn cael ei ymestyn am wythnos a hanner tymor yr hydref yn cael ei ymestyn am bythefnos hefyd medd yr undeb.

Mae'r undeb yn ystyried "wythnosau paratoi", fyddai'n "digwydd bob tair wythnos" yn nhymor yr hydref meddai'r datganiad.

Dywedodd Ysgrifennydd Cymru yr undeb, David Evans wrth BBC Cymru ei fod yn croesawu'r cynllun, a bod penderfyniad Ms Williams yn adlewyrchu'r berthynas dda rhwng yr undebau a'r gweinidog.